


# CYNGOR BWRDEISTREF SIROL TORFAEN POLISI DERBYN I YSGOLION 2027/28



Mae’r ddogfen hon ar gael yn Saesneg
This document is available in English

# Amserlen Derbyniadau Medi 2027

| **Grŵp Derbyn Medi 2027** | **Rownd Derbyn yn dechrau:** | **Dyddiad cau ar gyfer ceisiadau:** | **Dyddiad rhoi'r cynnig:** |
|---|---|---|---|
| Meithrin | 8 Mehefin 26 | 20 Gorffennaf 26 | 18 Medi 26 |
| Dosbarth Derbyn | 13 Tachwedd 26 | 15 Ionawr 27 | 16 Ebrill 27* |
| Blwyddyn 7 (ysgol uwchradd) | 18 Medi 26 | 30 Hydref 26 | 1 Mawrth 27* |

***Mae hwn yn ddyddiad cynnig cyffredin ledled pob awdurdod derbyn yng Nghymru**

Cynghorir ymgeiswyr i sicrhau bod eu cais yn cael ei gyflwyno erbyn y dyddiad cau perthnasol. Os byddwch yn cyflwyno'r ffurflen hon yn hwyr, neu'n newid eich dewis ar ôl y dyddiad cau, gall gynyddu'r posibilrwydd o beidio â chael lle yn yr ysgol o'ch dewis.

**Sylwer mai'r amser cau ar gyfer cyflwyno ceisiadau yw 5pm ar bob dyddiad cau.**

Yn Nhorfaen, bydd pob cyfeiriad yn dod o fewn dalgylch ysgol cyfrwng Saesneg a chyfrwng Cymraeg. Gellir cael manylion dalgylchoedd ysgolion yma; Dalgylchoedd | Cyngor Bwrdeistref Sirol Torfaen

## Contents

ADDYSG CYFRWNG CYMRAEG ....4
YSGOLION GWIRFODDOL A GYNORTHWYIR (YSGOLION FFYDD) ....5
GWNEUD CAIS AM LE MEWN YSGOL / SUT YDW I'N GWNEUD CAIS? ....6
DARPARIAETH FEITHRIN A CHYN-YSGOL ....7
DERBYN I'R DOSBARTH DERBYN A DERBYN I YSGOLION UWCHRADD 2027 ....10
DYDDIADAU ALLWEDDOL AR GYFER DERBYN I DDERBYN/CYFNODAU YN MEDI 2027 ....11
GWYBODAETH GYFFREDINOL AM DDERBYNYDDION ....13
DERBYN YN YSTOD Y FLWYDDYN ....16
RHESTRAU AROS ....17
Y TREFNIADAU AR GYFER CEISIADAU HWYR ....17
PLANT PERSONÉL LLUOEDD ARFOG Y DU A GWEISION ERAILL Y GORON (GAN GYNNWYS DIPLOMYDDION). ....18
DYLETSWYDD I DDERBYN PLENTYN Â CHYNLLUN DATBLYGU UNIGOL I YSGOL A GYNHELIR ....19
PLANT SY'N CAEL EU CARTREFU TRWY ASIANTAETHAU TRAIS DOMESTIG ....20
PLANT SIPSIWN A THEITHWYR ....20
SYMUDIADAU WEDI'U RHEOLI ....20
PROTOCOL DYSGWYR ANODD EU LLEOLI ....21
RHAI O'R RHESYMAU DROS WRTHOD DERBYN PLENTYN ....21
DERBYN I YSGOLION ALL CYFAGOS ....23
NIFEROEDD DERBYN ARFAETHEDIG/CAPASITI YSGOLION AR GYFER Y FLWYDDYN ACADEMAIDD 2027/28 ....24
DEDDFWRIAETH ....25
CYNGOR BWRDEISTREF SIROL TORFAEN CYDLYNU TREFNIADAU DERBYN AR GYFER YSGOLION CYNRADD ....26

# ADDYSG CYFRWNG CYMRAEG

## Darpariaeth Feithrin a Chyn-Ysgol

Mae yna bedair Uned Feithrin Cyfrwng Cymraeg yn Ysgol Gymraeg Cwmbrân, Ysgol Bryn Onnen (Farteg, Pont-y-pŵl), Ysgol Gymraeg Gwynllyw (Trefddyn) ac Ysgol Panteg (Tref Gruffydd).

Mae addysg Blynyddoedd Cynnar rhan amser drwy gyfrwng y Gymraeg hefyd ar gael yn Ysgol Feithrin Pont-y-pŵl ym Mhont-y-pŵl, lleoliad gofal plant cymeradwy sy'n cynnig gofal diwrnod llawn am 3 diwrnod yr wythnos, a 2 sesiwn hanner diwrnod ar y 2 ddiwrnod arall. Gall pob plentyn sy'n mynychu'r lleoliad hwn o 2 1/2 oed aros yno tan eu bod yn dechrau yn y Dosbarth Derbyn a bod angen. Cysylltwch â'r Gwasanaeth Gwybodaeth i Deuluoedd os gwelwch yn dda ynglŷn â phob darpariaeth gofal plant cyfrwng Cymraeg.

## Derbyn i'r Dosbarth Derbyn ac i Ysgol Uwchradd

Ar gyfer y rhieni hynny sy'n dymuno i'w plant gael addysg cyfwng Cymraeg, mae yna dair Ysgol **Gynradd** cyfrwng Cymraeg ac un ysgol 3-18 oed sydd hefyd yn cynnig lleoedd Dosbarth Derbyn yn Nhorfaen. Mae'r manylion fel a ganlyn:

Ysgol Bryn Onnen yn Farteg sy'n gwasanaethu gogledd y fwrdeistref.

Ysgol Gymraeg Cwmbrân sy'n gwasanaethu mwyafrif ardal Cwmbrân.

Ysgol Panteg yn Nhref Gruffydd sy'n gwasanaethu rhannau o Gwmbrân a chanol Torfaen.

*Ysgol Gymraeg Gwynllyw, yn Nhrefddyn sy'n gwasanaethu ardal Pont-y-pŵl.

*Dylid nodi bod y ddarpariaeth hon wedi dechrau fel "egin-ysgol" a oedd yn cynnig lleoedd yn y Meithrin a'r Dosbarth Derbyn ym mis Medi 2022, yn ystod y flwyddyn gyntaf yr oedd yr ysgol ar waith.

Ceir addysg **Uwchradd** cyfrwng Cymraeg yn Ysgol Gymraeg Gwynllyw ym Mhont-y-pŵl. Daeth yr ysgol hon yn "ysgol pob oed" i blant a phobl ifanc 3 i 18 oed ym mis Medi 2022.

Mae'r trefniadau a'r polisïau derbyn ar gyfer darpariaeth cyfrwng Cymraeg a'r trefniadau a'r polisïau ar gyfer ysgolion cyfrwng Saesneg, yr un peth.

Darperir cludiant ar gyfer disgyblion sy'n mynychu Ysgol cyfrwng Cymraeg yn unol â pholisi cludiant yr Awdurdod.

**Derbyniadau i'r chweched dosbarth (addysg anstatudol)** – ceir darpariaeth 6ed dosbarth cyfrwng Saesneg ym Mharth Dysgu Torfaen, Cwmbrân. Bydd y ddarpariaeth hon yn cael ei gweithredu gan Goleg Gwent ar ran y cyngor a dylid gwneud ceisiadau yn uniongyrchol i'r coleg.

Mae Ysgol Gymraeg Gwynllyw yn dal i ddarparu addysg cyfrwng Cymraeg ôl-16. Serch hynny, mae'r ysgolion unigol yn gweinyddu'r holl brosesau a gweithdrefnau yn ymwneud a Derbyniadau i'r chweched dosbarth ac os hoffech chi i'ch plentyn fynychu'r chweched dosbarth yn yr ysgol, cysylltwch â'r ysgol yn uniongyrchol.

# YSGOLION GWIRFODDOL A GYNORTHWYIR (YSGOLION FFYDD)

Mae yna 5 Ysgol Gynradd Wirfoddol a Gynorthwyir sy’n Ysgolion Ffydd yn Nhorfaen. Mae’r manylion fel a ganlyn:

Ysgol Gynradd Gatholig Dewi Sant, Cwmbrân

Ysgol Gynradd Gatholig Mair a’r Angylion, Cwmbrân

Ysgol Gynradd Gatholig Padre Pio, Pont-y-pŵl

Ysgol Gynradd yr Eglwys yng Nghymru Henllys

Ysgol Gynradd yr Eglwys yng Nghymru Ponthir

Gan fod Cyrff Llywodraethu ysgolion gwirfoddol a gynorthwyir yn gyfrifol am eu derbyniadau eu hunain, bydd gan bob ysgol ei pholisi derbyn ei hun.

Yn wahanol i'r blynyddoedd blaenorol, dylid cyflwyno pob cais am le mewn Dosbarth Derbyn yn y rownd derbyn arferol i'r Cyngor, hyd yn oed os yw un o'r ysgolion a ffefrir gennych yn ysgol ffydd (gweler protocol y cynllun cydlynu trefniadau derbyn am fanylion pellach).

Dylid cyflwyno ceisiadau meithrin ac yn ystod y flwyddyn ar gyfer ysgol ffydd yn uniongyrchol i’r ysgol berthnasol.

**Ysgol Gatholig Sant Alban** yw’r ddarpariaeth Uwchradd Gatholig ranbarthol ar gyfer Torfaen. **Dylid gwneud ceisiadau i Ysgol Uwchradd Gatholig Sant Alban yn uniongyrchol trwy eu gwefan [https://www.stalbans-pontypool.org.uk/about-us/admissions](https://www.stalbans-pontypool.org.uk/about-us/admissions)**

# GWNEUD CAIS AM LE MEWN YSGOL / SUT YDW I'N GWNEUD CAIS?

Rhaid i unrhyw ddisgyblion y mae arnynt angen lle mewn ysgol brif ffrwd gyflwyno cais trwy'r broses dderbyn i ysgolion. Bydd ysgolion prif ffrwd a gynhelir yn adnabod anghenion y mwyafrif o ddysgwyr, yn diwallu'r anghenion hynny ac yn eu monitro, a hynny trwy ddarpariaeth gyffredinol a darpariaeth wedi e thargedu. Bydd rhai o'r disgyblion yn cael eu nodi fel rhai sydd ag Anghenion Dysgu Ychwanegol ac y mae arnynt angen ymyriadau mwy penodol neu ymyriadau wedi eu targedu'n fwy, a Darpariaeth Ddysgu Ychwanegol gan eu hysgol.

Pan mae gan ddisgybl Anghenion Dysgu Ychwanegol ac wedi cael ei asesu fel un sydd angen Cynllun Datblygu Unigol (IDP) efallai y bydd ysgol benodol wedi'i henwi yn ei gynllun statudol. Gellir dod o hyd i'r trefniadau derbyn ar gyfer y disgyblion hyn isod, yn yr adran o dan y pennawd 'Dyletswydd i dderbyn plentyn â chynllun datblygu unigol i ysgol a gynhelir'. Os na enwir ysgol benodol ar gyfer y disgybl, yna ystyrir y bydd unrhyw ysgol brif ffrwd yn gallu darparu ar gyfer anghenion y disgybl ac felly ni roddir blaenoriaeth benodol i'r cais a chaiff ei asesu yn unol â'r meini prawf y cytunwyd arnynt ar gyfer achosion lle bo mwy o geisiadau na lleoedd.

Ymdrinnir â phob derbyniad i unrhyw ysgol yn unol â pholisi derbyn i ysgolion yr ALI neu'r Corff Llywodraethu perthnasol ac ni 'ddetholir' disgyblion ar unrhyw adeg. Ni chynhelir cyfweliadau, chwaith, i benderfynu ar y disgyblion fydd yn cael eu derbyn.

Yn Nhorfaen bydd pob cyfeiriad o fewn dalgylch ysgol cyfrwng Cymraeg a chyfrwng Saesneg. Er bod byw yn nalgylch yr ysgol a ffefrir yn elfen o'r meini prawf ar gyfer achosion lle bo mwy o geisiadau na lleoedd nid yw'n gwarantu lleoliad ar y sail hon.

Gellir gwneud ceisiadau i'r Cyngor ar-lein drwy wefan Ysgolion a Cholegau | Cyngor Bwrdeistref Sirol Torfaen rhwng y dyddiadau agor a chau a restrir ar dudalen 2. Wrth wneud cais caiff ymgeiswyr gadarnhad yn syth bod eu cais wedi ei gyflwyno ac mae modd gweld y penderfyniad ar-lein ar y dyddiad y caiff lleoedd eu cynnig. Fodd bynnag os na dderbynnir e-bost i gadarnhau dylai'r ymgeisydd gysylltu â'r Tîm Derbyn i Ysgolion yn syth i wneud yn siŵr bod y cais wedi cael ei gyflwyno'n llwyddiannus.

Os hoffech gyflwyno copi papur, rhowch gynnig i lawrlwytho copi o www.torfaen.gov.uk neu ffonio 01495 766915.

Os ydych yn llenwi copi papur rhaid i chi ei lenwi a'i ddychwelyd at y tîm derbyn i ysgolion (nid yr ysgol) erbyn y dyddiad cau perthnasol (gweler yr amserlen).

Byddai yr holl geisiadau sy'n dod i law cyn y dyddiad cau yn cael eu hystyried gyda'i gilydd ac, os oes angen, defnyddir y meini prawf ar gyfer achosion lle bo mwy o geisiadau na lleoedd.

Pan fo'r Awdurdod yn methu â chynnig lle i blentyn yn ysgol ei ddalgylch, darperir cludiant am ddim (os gofynnir amdano) i'r ysgol agosaf sydd â lle (nid yr ysgol a ddewisir), yn amodol ar y meini prawf ynghylch pellter a gyflwynir ym mholisi cludiant yr Awdurdod.

**Byddai unrhyw geisiadau sy'n dod i law ar ôl y dyddiad cau neu unrhyw geisiadau sy'n anghyflawn o hyd, yn cael eu trafod yn unol â meini prawf Torfaen ar gyfer achosion lle bo mwy o geisiadau na lleoedd a'r broses ymgeisio hwyr.**

## Rhoi gwybod i ymgeiswyr am y penderfyniad

Bydd y Cyngor yn rhoi gwybod i'r holl ymgeiswyr beth yw canlyniad eu cais am le mewn ysgol ar y dyddiad cynnig penodol (tudalen 2).

Bydd llythyrau penderfyniad yn cael eu hanfon drwy bost ail ddosbarth ddim llai na 3 diwrnod gwaith (gan gynnwys dyddiau Sadwrn) cyn y dyddiad cynnig. Ond bydd ymgeiswyr sy'n dewis cyflwyno cais ar-lein yn sicr yn derbyn e-bost yn cadarnhau eu penderfyniad ar y dyddiad cynnig.

Bydd gofyn i ymgeiswyr ymateb i unrhyw gynnig am le yn uniongyrchol i'r Cyngor o fewn 14 diwrnod i'r dyddiad cynnig. Os nad yw ymgeisydd yn ymateb i'r cynnig am le o fewn y terfyn amser hwn, bydd y Cyngor yn atgoffa'r ymgeisydd o'r angen i ymateb o fewn 7 diwrnod arall. Gall methu ag ymateb erbyn y dyddiad cau 21 diwrnod terfynol hwn arwain at y cynnig yn cael ei dynnu'n ôl a'r lle yn cael ei gynnig i blentyn arall.

# DARPARIAETH FEITHRIN A CHYN-YSGOL

Yn Nhorfaen mae yna ddewis o leoliadau ar gael i blant oed Meithrin.

Mae Unedau Meithrin yr Awdurdod Lleol (ALl) (a elwir yn ddosbarthiadau meithrin a gynhelir) ynghlwm wrth Ysgolion Cynradd. Mae'r rhain hefyd yn cynnwys pedair uned cyfrwng Cymraeg yn Ysgol Gymraeg Cwmbrân, Ysgol Bryn Onnen (Farteg, Pont-y-pŵl), Ysgol Gymraeg Gwynllyw (Trefddyn) ac Ysgol Panteg (Tref Gruffydd).

Mae yna ddwy Uned Feithrin yn Ysgol Gynradd Gatholig Dewi Sant ac Ysgol Gynradd Gatholig Mair a'r Angylion sy'n cynnig addysg i blant Catholig. Corff Llywodraethu'r ysgol benodol sy'n trafod derbyniadau i'r ysgolion hyn.

Darperir ar gyfer disgyblion ag anghenion difrifol a chymhleth yn Ysgol Anghenion Arbennig Crownbridge sydd ar safle Ysgol Gyfun Croesyceiliog. Mae Canolfan Blant Integredig (CBI) wedi ei lleoli yng Nghwmbrân ar safle ysgol Nant Celyn.

Hefyd mae lleoliadau blynyddoedd cynnar cyfrwng Saesneg neu Gymraeg nad ydynt yn cael eu cynnal wedi cofrestru gyda'r Awdurdod Lleol i ddarparu addysg i blant tair a phedair oed.Gall rhieni/gofalwyr ddewis rhoi eu plentyn mewn lleoliad blynyddoedd cynnar sector gwirfoddol neu breifat, sy'n ddarparwr addysg cofrestredig. Mae yna ddarparwyr nas gynhelir sy'n gallu darparu gofal plant ychwanegol pe bai ei angen arnoch. Yn wahanol i dderbyn i feithrinfeydd yr ALl, nid oes dyddiadau agor/cau sy'n berthnasol i'r meithrinfeydd hyn.

Mae pob Uned Feithrin yn gwasanaethu dalgylch penodol.

Gall rhieni gyflwyno cais i'w plentyn fynd i unrhyw Uned Feithrin a gynhelir gan yr Awdurdod, ond pan fydd mwy o blant eisiau mynd i'r uned honno na'r lleoedd sydd ar gael bydd y Cyngor yn defnyddio'r meini prawf gordanysgrifio canlynol, yn ôl blaenoriaeth.

Neu, gall rhieni ddewis rhoi eu plentyn mewn lleoliad blynyddoedd cynnar yn y sector gwirfoddol neu breifat sy'n ddarparwr addysg cofrestredig.

Gall yr Awdurdod dderbyn plant i'w Ysgolion Meithrin o ddechrau'r tymor ar ôl pen-blwydd y plentyn yn dair blwydd oed os oes lleoedd ar gael, waeth pryd fydd y gwyliau ysgol. Gelwir hyn yn aml yn lleoedd Plant Sy'n Codi'n 3 Oed. Nid yw plant a anwyd rhwng 1 Ebrill a 31 Awst yn gymwys am le i blant sy'n codi'n 3 oed.

**Tymor yr Hydref** 1 Medi - 31 Rhagfyr (mae plant a aned rhwng y dyddiadau hyn yn gallu cael lleoliad yn nhymor y gwanwyn/ym mis Ionawr)

**Tymor y Gwanwyn** 1 Ionawr - 31 Mawrth (mae plant a aned rhwng y dyddiadau hyn yn gallu cael lleoliad yn nhymor yr haf/ym mis Ebrill)

**Tymor yr Haf** 1 Ebrill - 31 Awst. (mae plant a aned rhwng y dyddiadau hyn yn gallu cael lleoliad ym mis Medi)

Dim ond un ffenestr sydd i wneud cais am le meithrin, ac o'r un cais hwnnw caiff lleoedd ym mis Medi ac i'r rhai sy'n codi'n 3 oed eu dyrannu, lle bo hynny'n bosibl.

## Dyddiadau allweddol ar gyfer derbynfa meithrin yn 2027/2028

**Dosbarth Meithrin (Ionawr, Ebrill a Medi)**

- Bydd y broses ymgeisio ar-lein yn mynd yn fyw 8 Mehefin 2026 (9am)
- Y dyddiad cau ar gyfer derbyn ceisiadau yw 20 Gorffennaf 2026 (5pm)
- Cynnig lleoedd - 18 Medi 2026

Pan fyddant wedi cael lle meithrin ym mis Medi, bydd plant a anwyd rhwng 1 Medi a 31 Mawrth o bosibl yn cael cynnig dechrau'n gynnar yn y tymor ar ôl eu pen-blwydd yn dair oed, os oes lleoedd ar gael. Gellir cael lleoliad codi'n 3 yn yr yn feithrinfa a dderbyniwyd lleoliad ym mis Medi a hynny'n unig. Os oes lleoedd i blant sy'n codi'n 3 oed ar gael, bydd plant cymwys yn cael cynnig lle cynnar yn yr ysgol feithrin a ddyrennir iddynt fel a ganlyn:

- Ar 18 Medi 2026 ar gyfer lleoedd ym mis Ionawr 2027 i blant sy'n codi'n 3 oed
- Ar 29 Ionawr 2027 ar gyfer lleoedd yn Ebrill 2027 i blant sy'n codi'n 3 oed.

Nid yw'n bosibl i blentyn dderbyn lle dechrau'n gynnar mewn un meithrinfa a lle mis Medi mewn meithrinfa arall gan fod hyn yn cymryd dau le.

Ni all y Cyngor ystyried ceisiadau am leoedd meithrin am ran yn unig o'r wythnos ysgol, ac felly mae lleoedd yn cael eu cynnig mewn ysgolion a dosbarthiadau meithrin am sesiynau hanner diwrnod, naill ai yn y bore neu'r prynhawn, 5 diwrnod yr wythnos. Mae ysgolion yn disgwyl i ddisgyblion sy'n 6 mynychu'r feithrinfa i fynd i bob sesiwn sydd ar gael iddynt. Os nad yw rhieni am i'w plentyn fynd i bum sesiwn bob wythnos, mae'n bosibl y byddai'n well iddyn nhw chwilio am le mewn lleoliad nas cynhelir, sy'n gallu ymdopi'n haws â threfniadau hyblyg fel hyn.

Mewn rhai amgylchiadau cyfyngedig, gellir cynnig lleoliadau amser llawn i blant 4 oed, os oes lleoedd ar gael.

**Fodd bynnag, nid oes hawl i apelio yn erbyn penderfyniad i wrthod lleoliad meithrin ac ni ddarperir cludiant ar gyfer plant oed Meithrin.**

Polisi'r Cyngor yw parchu dewis rhieni lle'n bosibl; fodd bynnag, mewn rhai achosion efallai y bydd mwy o geisiadau am leoliad penodol na'r lleoedd sydd ar gael. Wrth benderfynu pa blant i'w derbyn i'r Meithrin, bydd y Cyngor yn defnyddio'r meini prawf canlynol ar gyfer achosion lle mae mwy o geisiadau na lleoedd, yn nhrefn blaenoriaeth.

Pan fo ysgol wedi'i henwi mewn Cynllun Datblygu Unigol (CDU) Awdurdod Lleol, mae gan y Cyngor ddyletswydd i dderbyn y plentyn i'r lleoliad sydd wedi ei enwi cyn i'r meini prawf gordanysgrifio gael eu defnyddio yn erbyn y ceisiadau a dderbynnir.

## Meini prawf ar gyfer dyrannu lleoedd meithrin:

- **Blaenoriaeth 1: Blaenoriaeth ar gyfer lleoedd llawn-amser (i blant pedair oed yn unig).**
  - Plant sy'n derbyn gofal neu sydd wedi derbyn gofal yn y gorffennol sy'n byw yn y dalgylch.
  - Plant ag ADY hynod gymhleth ac anghenion meddygol penodol, sy'n byw yn y dalgylch, a'r asiantaethau (iechyd) priodol yn cefnogi darpariaeth feithrin amser llawn mewn cytundeb â'r adran ADY.
  - Plant sydd ar y Gofrestr Amddiffyn Plant sy'n byw yn y dalgylch.
- **Blaenoriaeth 2: Plant 3-4 oed â blaenoriaeth rhan amser.** Plant sy'n derbyn gofal gan yr Awdurdod neu sydd wedi derbyn gofal yn y gorffenno.
- **Blaenoriaeth 3:** Plant ar sail feddygol, a gefnogir gan adroddiad gan feddyg ymgynghorol/arbenigwr meddygol, a gafwyd gan y rhieni, yn nodi'r fantais feddygol i'r plentyn fynychu'r ysgol o'u dewis o gymharu ag ysgol arferol y dalgylch.

**Sylwer: Ni dderbynnir adroddiadau gan feddygon teulu at y diben hwn**

- **Blaenoriaeth 4:** Disgyblion sy'n byw o fewn y dalgylch
- **Blaenoriaeth 5:** Plant sy'n byw y tu allan i ddalgylch yr ysgol o'u dewis ac sy'n bodloni'r meini prawf ar gyfer blaenoriaeth amser llawn (Blaenoriaeth 1).

Wedi ystyried y categorïau uchod, seilir blaenoriaeth ar agosrwydd at yr ysgol. Mesurir y pellter o'r pwynt lle bo cartref y plentyn yn cwrdd â'r briffordd i'r fynedfa agosaf sydd ar gael yn yr ysgol. Defnyddir System Fapio Gwybodaeth Ddigidol i fesur, gan ddilyn y rheolau ynghylch cymhwystra ar gyfer cludiant i'r ysgol.

Er mai'r Awdurdod sy'n dod i benderfyniad ynghylch derbyn plentyn ac sy'n dweud wrth y rhieni am y penderfyniad hwn, yr unedau unigol fydd yn dweud yn swyddogol wrth y rhieni am statws y lleoliad h.y. sesiynau bore neu brynhawn. Bydd llythyron cynnig yn cael eu hanfon allan erbyn diwedd mis Tachwedd bob blwyddyn.

Nid yw'r ffaith fod plentyn yn mynychu dosbarth Meithrin yn gwarantu y caiff ei dderbyn i'r Dosbarth Derbyn nac yn rhoi mantais i gais y plentyn am le yn y Dosbarth Derbyn. Rhaid i rieni gyflwyno cais ar wahân am le mewn Dosbarth Derbyn ar yr adeg briodol.

# DERBYN I'R DOSBARTH DERBYN A DERBYN I YSGOLION UWCHRADD 2027

'Yr Awdurdod Derbyn' sy'n rheoli'r broses o dderbyn plant i ysgolion ac yn ei gweinyddu. Yn achos ysgolion y fwrdeistref sirol ac ysgolion gwirfoddol a reolir, cydnabyddir mai Cyngor Bwrdeistref Sirol Torfaen (Awdurdod Lleol (ALl)) yw'r Awdurdod hwn. Yn achos ysgolion gwirfoddol a gynorthwyir (ysgolion yr eglwys), ac ysgolion sefydledig, corff llywodraethu'r ysgol benodol berthnasol yw'r Awdurdod Derbyn.

Mae angen i rieni a/neu ofalwyr ddweud pa ysgol yr hoffent i'w plentyn/plant ei mynychu. Ym mwyafrif llethol yr achosion, mae rhieni a/neu ofalwyr yn ddigon hapus i ddewis eu hysgol leol, ond mae'n ofyniad cyfreithiol iddynt enwi'r ysgol honno ar ffurflen gais, wedi ei llenwi ar-lein neu fel copi papur, a'i llofnodi gan y sawl sydd â chyfrifoldeb rhiant. Bydd y rheini sy'n cyflwyno ffurflen gais (i fynegi dewis) yn cael y flaenoriaeth dros y rheini nad ydynt yn gwneud hynny.

## Cynradd (Dosbarth Derbyn)

Bydd eich plentyn yn dechrau yn y Dosbarth Derbyn ar ddechrau'r flwyddyn ysgol, h.y. mis Medi, pan fydd ef neu hi yn 5 oed er nad ydyw'n ofynnol yn ôl y gyfraith i blentyn ddechrau yn yr ysgol tan ddechrau'r tymor sy'n dilyn eu pen- blwydd yn bump oed.

Sylwer mai un ffurflen dderbyn yn unig sydd ei hangen (yn y flwyddyn derbyn) ar gyfer Ysgol Gymraeg Gwynllyw, am ei bod yn ysgol i 'bob oedran'.

O ran **Derbyn i'r Dosbarth Derbyn** bydd y rhan fwyaf o rieni yn cael llythyr yn dweud wrthynt sut i ymgeisio, 6 wythnos cyn y dyddiad cau ar gyfer derbyniadau. Anfonir y llythyron yn uniongyrchol i gyfeiriad cartref y plentyn (os nad yw'r plentyn yn mynychu lleoliad Meithrin yr ALl ar y pryd) neu trwy law'r disgybl, a bydd yn esbonio sut i wneud cais ar-lein.

## Uwchradd

Bydd eich plentyn yn dechrau yn yr ysgol uwchradd ar ddechrau'r flwyddyn ysgol y bydd ef/hi yn 12 oed. Nodwch os gwelwch yn dda nad yw mynychu ysgol gynradd yn rhan o'r meini prawf ar gyfer derbyn i'w hysgol uwchradd partner/bwydo.

O ran **Derbyn i Ysgol Uwchradd** bydd pob rhiant yn cael llythyr 6 wythnos cyn y dyddiad cau trwy law'r disgybl a bydd yn esbonio sut y gall rhieni wneud cais ar-lein.

# DYDDIADAU ALLWEDDOL AR GYFER DERBYN I DDERBYN/CYFNODAU YN MEDI 2027

## Cynradd

- Bydd y cais ar-lein yn fyw 13 Tachwedd 2026 (9.00am).
- Y dyddiad cau ar gyfer derbyn ceisiadau yw 15 Ionawr 2027 5pm.
- Cynnig lleoedd –16 Ebrill 2027*.
- Cynhelir apeliadau cynradd yn ystod mis Mai/Mehefin 2027 ar gyfer ceisiadau sy'n dod i law erbyn y dyddiad cau, ac yn unol â'r amserlen apelio.

## Uwchradd

- Bydd y ffurflen gais ar-lein yn fyw 18 Medi 2026 (9am).
- Y dyddiad cau ar gyfer derbyn ceisiadau yw 30 Hydref 2026 (5pm).
- Cynnig lle – 1 Mawrth 2027*.
- Cynhelir apeliadau uwchradd yn ystod mis Mai/Mehefin 2027 ar gyfer ceisiadau sy'n dod i law erbyn y dyddiad cau, ac yn unol â'r amserlen ar gyfer apelio.

*Dyma'r dyddiad cyffredin ar gyfer cynnig lleoedd ar draws yr holl awdurdodau derbyn yng Nghymru.

Wrth ystyried ceisiadau am le, <u>rhaid</u> i'r Awdurdod dderbyn disgyblion hyd nes cyrraedd Nifer Derbyn yr ysgol. Y Nifer Derbyn yw nifer y disgyblion a fydd yn cael eu derbyn i unrhyw grŵp blwyddyn cyn y gellir gwrthod ceisiadau.

Fodd bynnag, pan fo nifer y ceisiadau yn fwy na nifer y lleoedd sydd ar gael, defnyddir y **meini prawf** canlynol ar gyfer achosion **lle bo mwy o geisiadau na lleoedd**, er mwyn penderfynu pa ymgeiswyr fydd yn cael cynnig lle: -

## Meini prawf gormod o geisiadau am leoedd Cynradd/Eilaidd

Pan fo ysgol wedi'i henwi mewn Cynllun Datblygu Unigol (CDU) Awdurdod Lleol, mae gan y Cyngor ddyletswydd i dderbyn y plentyn i'r lleoliad sydd wedi ei enwi cyn i'r meini prawf gordanysgrifio gael eu defnyddio yn erbyn y ceisiadau a dderbynnir.

- **Blaenoriaeth 1:** Plant sy'n derbyn gofal gan yr Awdurdod neu sydd wedi derbyn gofal yn y gorffennol.
- **Blaenoriaeth 2:** Plant ar sail feddygol, a gefnogir gan adroddiad gan feddyg ymgynghorol/arbenigwr meddygol, a gafwyd gan y rhieni, yn nodi'r fantais feddygol i'r plentyn fynychu'r ysgol o'u dewis o gymharu ag ysgol arferol y dalgylch.

**Sylwer: Ni dderbynnir adroddiadau gan feddygon teulu at y diben hwn.**

- **Blaenoriaeth 3:** Plant sy'n byw yn nalgylch yr ysgol o'u dewis ac sydd â brodyr neu chwiorydd perthnasol yn yr ysgol adeg y dyddiad derbyn
- **Blaenoriaeth 4:** Plant sy'n byw yn nalgylch yr ysgol o'u dewis heb frodyr a chwiorydd perthnasol yn yr ysgol adeg y dyddiad derbyn
- **Blaenoriaeth 5:** Plant sy'n byw y tu allan i ddalgylch yr ysgol o'u dewis sydd â brodyr neu chwiorydd perthnasol yn yr ysgol adeg y dyddiad derbyn.
- **Blaenoriaeth 6:** Plant sy'n byw y tu allan i ddalgylch yr ysgol o'u dewis heb frodyr a chwiorydd perthnasol yn yr ysgol adeg y dyddiad derbyn

**Sylwer: Ystyrir bod brodyr a chwiorydd, boed yn rhai llawn, hanner, llys neu faeth, yn berthnasol pan fônt yn byw gyda'i gilydd yn yr un cyfeiriad. Mae hyn yn berthnasol pan fydd sicrwydd bod y plentyn hŷn wedi'i gofrestru yn yr ysgol pan fydd y plentyn ieuengaf yn gymwys i fynychu'r ysgol. Bydd brodyr a chwiorydd sydd wedi cael eu geni yn yr un flwyddyn academaidd hefyd yn cael blaenoriaeth.**

Pan fydd mwy nag un achos o'r fath, asesir blaenoriaeth ar sail y plant hynny sydd agosaf at oed y brodyr neu'r chwiorydd hŷn sydd eisoes yn yr ysgol adeg y dyddiad derbyn.

Ystyrir y meini prawf brodyr a chwiorydd fel yn berthnasol yn y Flwyddyn Derbyn hyd at flwyddyn 11 yn unig. Wrth ddyrannu lleoedd meithrin, nodwch nad yw brodyr neu chwiorydd yn cael blaenoriaeth o dan y meini prawf gordanysgrifio a gyhoeddwyd.

Wedi ystyried y categorïau uchod, seilir blaenoriaeth ar agosrwydd at yr ysgol. Mesurir y pellter o'r pwynt lle bo cartref y plentyn yn cwrdd â'r briffordd i'r fynedfa agosaf sydd ar gael yn yr ysgol.. Defnyddir System Fapio Gwybodaeth Ddigidol i fesur, gan ddilyn y rheolau ynghylch cymhwystra ar gyfer cludiant i'r ysgol.

Bydd yr Awdurdod yn ymdrechu i gydymffurfio â'r ysgol o ddewis y rhieni, gan ystyried ei bolisi derbyn ei hun ac unrhyw ofynion statudol. Fodd bynnag, lle bo nifer y ceisiadau yn fwy na nifer y lleoedd sydd ar gael efallai y bydd yn rhaid gwrthod derbyn y plentyn.

Yn yr amgylchiadau hyn, mae gan rieni **hawl statudol i apelio** a byddant yn cael y rhesymau dros wrthod eu cais (yn ysgrifenedig) ynghyd â gwybodaeth am sut i apelio. Adran Gwasanaethau Democrataidd yr Awdurdod sy'n trefnu'r apêl a bydd yn cael gwrandawiad gerbron Panel Apêl Annibynnol. Cynhelir yr apêl yn unol â'r amserlenni a gyflwynir yng Nghod Ymarfer Apeliadau Llywodraeth Cymru 2013. Ni fydd eich dymuniad i fynd ar drywydd apêl yn effeithio ar leoliad mewn ysgol arall. Gallwch ddod â ffrind neu gynghorydd i'r apêl gyda chi a dylech gyflwyno unrhyw dystiolaeth ysgrifenedig cyn y gwrandawiad.

Gallwch gael rhagor o wybodaeth am apelio gan y Gwasanaethau Democrataidd, Y Ganolfan Ddinesig, Pont-y-pŵl, NP4 6YB.

# GWYBODAETH GYFFREDINOL AM DDERBYNYDDION

## Dilysu Cyfeiriad

Mae gofyn i rieni / ofalwyr nodi eu cyfeirnod Treth Gyngor ar ffurflen gais derbyn i ysgolion eu plentyn.  Bydd yr Awdurdod Lleol yn defnyddio’r wybodaeth hon i ddilysu’r cyfeiriad i sicrhau ei fod yr un peth â’r wybodaeth sydd ar gronfa ddata Treth Gyngor yr Awdurdod Lleol, ystyrir y cyfeiriad yn ddilys ddim ond os yw’r oedolyn sy’n llenwi’r cais wedi ei enwi ar y cofnod treth gyngor.

Pan na ellir defnyddio’r cofnod treth gyngor, neu ar gyfer yr ymgeiswyr hynny sy’n byw y tu allan i Torfaen, bydd y Cyngor yn ystyried o leiaf ddau o’r dogfennau canlynol i fod yn cefnogi penderfyniad ar gyfer preswylfa yng nghyfeiriad penodol:-

- Hysbysiadau Galw am Dalu Treth Gyngor* (dim hŷn na 12 mis).
- Hysbysiad CThEM, Adran Gwaith a Phensiynau, neu’r Awdurdod Lleol am hawliad h.y. Credyd Treth Plant, Credyd Treth Gwaith, Credyd Cynhwysol, Lwfans Ceisio Gwaith, Budd-dâl Plant neu Fudd-dâl Tai (Dim hŷn na 3 mis).
- Cytundeb tenantiaeth/prydlesi neu lyfr rhent swyddogol a gyhoeddwyd gan gymdeithas tai, cyngor lleol, asiantaeth gosod wedi’i hen sefydlu neu gyfreithiwr, y mae’n rhaid iddynt gynnwys y dyddiad cau perthnasol (ar gyfer y rownd derbyn i ysgolion arferol) / dyddiad cyflwyno (ar gyfer ceisiadau trosglwyddo yn ystod y flwyddyn).
- Datganiad morgais (dim hŷn na 3 mis)
- Bil nwy, trydan neu ddŵr sy’n dangos defnydd o’r gwasanaeth priodol (dim hŷn nag un mis)
- Trwydded yrru ddilys y DU â ffotograff
- Tystysgrif Yswiriant Cartref neu Fodur* (dim hŷn na 12 mis).
- Tystysgrif Trwydded Deledu* (dim hŷn na 12 mis).
- Cofnod y Gofrestr Etholiadol (Gwiriad mewnol yw hwn y gellir ei gynnal ar gyfer trigolion Torfaen yn unig, ni dderbynnir cardiau cofrestru)

Bydd y Cyngor yn defnyddio’r cyfeiriad cartref a roddir yn y cais i benderfynu pa un yw’r ysgol ddalgylch ac a oes unrhyw gymhwysedd am drafnidiaeth am ddim iddi o’r cartref, yn unol â pholisi trafnidiaeth cyfredol y Cyngor. Ni fydd cyfeiriad newydd yn cael ei ystyried wrth benderfynu ar gais os nad yw’r ymgeisydd a’r plentyn yn byw yno ar y dyddiad cau.

Cyfrifoldeb yr ymgeisydd yw dweud wrth y Tîm Derbyn i Ysgolion am unrhyw newidiadau mewn amgylchiadau gan gynnwys newid cyfeiriad yn dilyn cyflwyno’r cais. Mae hyn er mwyn sicrhau bod gohebiaeth yn cael ei hanfon i’r cyfeiriad cywir, ac ni fydd yn effeithio ar ganlyniad y cais os yw hyn ar ôl y dyddiad cau. Dim ond os yw’r plentyn yn byw yn y cyfeiriad newydd ar y dyddiad cau y bydd yn cael ei ystyried wrth benderfynu canlyniad y cais, a rhaid cyflwyno tystiolaeth ddigonol i gadarnhau hyn.

## Tystiolaeth

Bydd yr Awdurdod yn gofyn i rieni gyflwyno tystiolaeth ddogfennol lle bo angen hynny er mwyn dilysu’r data a gyflwynwyd ar ffurflen gais e.e. Tystysgrif Geni, Cerdyn Meddygol y GIG, Pasbort, Bil Treth Gyngor neu Gyfleustodau diweddar.

Prawf am ddyddiad geni'r plentyn ym mhob achos ac eithrio pan fo plentyn yn trosglwyddo o un ysgol Torfaen i arall. Mathau o dystiolaeth a dderbynnir yw:

- Tystysgrif Geni
- Pasbort
- Trwydded Preswyliad a gyhoeddwyd gan Swyddfa Gartref y DU
- Ffurflen Gofrestru Ailsefydlu a gyhoeddwyd gan Swyddfa Gartref y DU

**Noder: Ni fyddwn yn derbyn cais am le mewn meithrinfa heb dystiolaeth o ddyddiad geni.**

## Rhannu preswylfa

Os yw rhieni yn rhannu cyfrifoldeb am y plentyn a'i fod yn treulio amser cyfartal gyda'r ddau riant yn ystod yr wythnos ysgol, ystyrir cyfeiriad y rhiant sy'n derbyn budd-dal plant fel cartref y plentyn at ddibenion dyrannu lle.

## Y sawl sy'n llenwi'r ffurflen gais

Dim ond y rheiny sydd â chyfrifoldeb rhiant dros y plentyn a enwir sy'n gallu gwneud cais, a bydd gofyn iddynt lofnodi datganiad i'r perwyl hwn yn rhan o'r broses ymgeisio. Fel arfer, disgwylir y bydd yr unigolyn hwn yn byw yn yr un cyfeiriad â'r plentyn a chyfeirir at yr unigolyn hwn fel rhiant at ddibenion derbyn i ysgolion. Bydd hyn yn cynnwys gweithwyr cymdeithasol yn achos plant sy'n derbyn gofal gan yr Awdurdod Lleol.

Lle bo rhieni'n rhannu cyfrifoldeb rhiant yn gyfartal, bydd y Cyngor yn gofyn i rieni'r plentyn benderfynu pa riant ddylai wneud y cais. Disgwylir y bydd rhieni hefyd yn cytuno ar ysgol eu plentyn cyn gwneud cais. Nid yw'r Cyngor mewn sefyllfa i ymyrryd mewn gwrthdaro rhwng rhieni ynghylch ceisiadau am le mewn ysgolion a bydd yn gofyn bod y rhain yn cael eu datrys yn breifat.

Os na fydd rhieni yn gallu cytuno, ac nid yw'r naill na'r llall wedi cael gorchymyn llys i ddweud pwy ddylai fod yn gwneud y cais/pa ysgol yw'r ysgol o'u dewis, bydd y Cyngor yn derbyn cais gan y rhiant sy'n cael Budd-dal Plant ar gyfer y plentyn.

Dylech fod yn ymwybodol bod angen i ysgolion wybod pwy sydd â chyfrifoldeb fel rhiant am bob plentyn, yn dilyn newidiadau a wnaed i'r gyfraith plant gan Ddeddf Plant 1989 a ddaeth i rym ym mis Hydref 1991. Y rheswm dros hyn yw sicrhau bod y caniatâd cywir yn cael ei rhoi pan fydd yr ysgol angen caniatâd y rhiant. Fe fydd hefyd yn sicrhau bod pobl sydd â chyfrifoldeb rhiant, ond sydd ddim yn byw gyda'r plentyn, yn derbyn adroddiadau ysgol a chael cyfle i fod yn rhan o addysg y plentyn. Cafwyd newidiadau pellach yn y gyfraith yn 2003.

- Mamau sydd bob amser yn cael cyfrifoldeb rhiant (onid oes Gorchymyn Llys yn ei le yn nodi nad oes ganddi'r cyfrifoldeb bellach).
- Mae gan dadau oedd yn briod â'r mamau cyn 2003, gyfrifoldeb rhiant.
- Mae gan dadau hefyd gyfrifoldeb rhiant am blentyn os cafodd yn plentyn hwnnw ei eni ar ôl 2003 ac os yw ei enw ar dystysgrif geni y plentyn.
- Gall tadau di-briod, llys rieni, perthnasau ac unrhyw unigolion eraill gael cyfrifoldeb rhiant, ond nid yn awtomatig.

Gofynnir i rieni gydweithredu â staff yr ysgol trwy ddarparu manylion y bobl sydd â chyfrifoldebau rhiant am ddisgybl i'r ysgol dan sylw. Dylid hysbysu'r ysgol ynghylch unrhyw

newidiadau i drefniadau cyfrifoldebau rhiant neu newidiadau i ofal y plentyn o ddydd i ddydd.

## Plant Genedigaethau Lluosog

Wrth ddefnyddio'r meini prawf ar gyfer achosion lle bo mwy o geisiadau na lleoedd, os digwydd i'r plentyn olaf i'w dderbyn fod yn un o enedigaeth luosog, yna bydd yr ALl yn derbyn y brawd/chwaer neu'r brodyr/chwiorydd eraill hefyd e.e. efeilliaid, tripledi ayb.

## Mynediad Gohiriedig i'r Ysgol Gynradd

Bydd yr Awdurdod Lleol yn derbyn plentyn i ysgol gynradd/fabanod a gynhelir ar ddechrau'r flwyddyn academaidd y bydd ef/hi yn troi'n 5 mlwydd oed ynddi. Fodd bynnag, mae'r gofynion cyfreithiol yn cadarnhau bod rhieni yn gallu gohirio derbyniad eu plentyn hyd nes y tymor ar ôl eu pen-blwydd yn 5 mlwydd oed. Mae yna rwymedigaeth ar yr Awdurdod Lleol i sicrhau bod unrhyw gynnig o le mewn ysgol yn cael ei gadw i rieni sy'n dymuno gohirio mynediad eu plentyn i'r Dosbarth Derbyn hyd nes yn hwyrach yn y flwyddyn academaidd. Fodd bynnag, ni all riant ohirio mynediad y tu hwnt i'r tymor ar ôl pen-blwydd y plentyn yn bum mlwydd oed, na thu hwnt i'r flwyddyn ysgol y gwnaethpwyd y cais ar ei chyfer.

## Plant a Aned yn Ystod Tymor yr Haf

Yn achos plentyn a aned yn ystod tymor yr haf, nid oes gofyniad cyfreithiol iddo fynychu'r Ysgol hyd nes y tymor ar ôl ei ben-blwydd yn bum mlwydd oed / y mis Medi ar ôl y flwyddyn fynediad arferol ar gyfer plant oed y Dosbarth Derbyn. Fodd bynnag, mewn amgylchiadau o'r fath bydd yr Awdurdod Lleol yn parhau i sicrhau bod plant yn dilyn eu grŵp blwyddyn cronolegol ac felly byddai'r plentyn yn cael ei dderbyn i Flwyddyn 1 ac nid i'r Dosbarth Derbyn.

Mewn amgylchiadau eithriadol, a hynny'n unig y bydd yr Awdurdod Lleol yn caniatáu i dderbyn plentyn a aned yn nhymor yr haf i mewn i grŵp blwyddyn sydd y tu allan i flwyddyn derbyn arferol. Mewn amgylchiadau o'r fath, bydd angen sail dystiolaeth addas (e.e adroddiad gan Seicolegydd Addysg) sy'n awgrymu nad yw'r grŵp blwyddyn gronolegol yn gallu diwallu anghenion y plentyn dan sylw mewn modd addas.

## Derbyniadau y tu allan i'r grŵp oedran arferol

Er y bydd y rhan fwyaf o blant yn cael eu derbyn i'r ysgol gyda'u grŵp oedran cronolegol, o bryd i'w gilydd mae rhieni yn gofyn am leoedd y tu allan i'w grŵp oedran arferol ar gyfer plant dawnus a thalentog, neu'r rheiny sydd wedi cael trafferthion neu wedi colli rhan o'r flwyddyn, yn aml oherwydd salwch. Fel arfer, nid yw'n briodol lleoli plentyn mewn grŵp oedran sy'n wahanol i'w oed cronolegol. Serch hynny, bydd y Cyngor yn ystyried y ceisiadau hyn yn ofalus ac yn dod i benderfyniad ar sail amgylchiadau pob achos. Wrth wneud hyn bydd yn ymgynghori â'r rhieni a'r ysgol ac yn ystyried yr hyn sydd fwyaf buddiol i'r plentyn.

Rhoddir ystyriaeth ddyledus hefyd i adroddiad y Seicolegydd Addysg pan fo adroddiad o'r fath ar gael, a bydd gofyn sefydlu rhesymau clir dros wneud penderfyniad o'r fath. Os penderfynir bod sail ar gyfer ystyried cais 'y tu allan i'r flwyddyn' mae gan rieni y gwrthodwyd eu cais am le mewn ysgol hawl statudol i apelio. Fodd bynnag, nid oes hawl i apelio os cynigiwyd lle ond nad yw'r lle hwnnw yn y grŵp blwyddyn a ddymunir.

# DERBYN YN YSTOD Y FLWYDDYN

Weithiau cyfeirir at hyn fel 'newid ysgol yn ystod y tymor' a dyma'r broses ymgeisio i blant oed ysgol ag arnynt angen eu derbyn y tu allan i'r rownd dderbyniadau arferol. Dyma'r broses o symud o un ysgol i ysgol arall.

Gall rhieni ofyn am gael symud eu plentyn i ysgol arall ar unrhyw gam yn addysg eu plentyn, ac mae yna nifer o resymau dilys dros wneud hynny, er enghraifft symud tŷ. Fodd bynnag, mae angen ystyried yn ofalus cyn newid ysgol. Nid dyma'r ateb bob tro, oherwydd mae'n gallu cael effaith andwyol ar addysg y plentyn.

Yn ystod y flwyddyn ysgol, dim ond lleoedd cyfyngedig sydd ar gael. Ni ddylai ymgeiswyr sy'n symud i Dorfaen i fyw neu sy'n symud o fewn Torfaen, ragdybio y bydd eu plentyn yn cael lle yn yr ysgol leol yn awtomatig. Ni ellir gwarantu lle mewn unrhyw ysgol, hyn yn oed os mai dyma ysgol y dalgylch, ac os yw'r ysgol yn llawn yn barod yn y grŵp blwyddyn perthnasol, bydd y cais yn cael ei wrthod.

Yn ganlyniad, dylech ystyried y canlynol a thrafod pob opsiwn gyda'r Tîm Derbyniadau Ysgolion cyn i chi symud, er mwyn tarfu cyn lleied â phosibl ar addysg y plentyn:

- Ydych chi wedi trafod opsiynau eich plentyn gyda'r ysgol bresennol? Efallai bod yna resymau addysgol cadarn dros beidio â symud i ysgol arall, a bydd gofyn i chi eu hystyried. Dylai rhieni disgyblion Blwyddyn 10 neu Flwyddyn 11 yn benodol nodi bod y Cyngor yn cynghori'n gryf yn erbyn symud ysgol ar y cam hwn yn addysg plentyn, yn enwedig lle nad yw'n bosibl cynnig darpariaeth ar gyfer eu hopsiynau TGAU, gan fod hyn yn debygol o gael effaith andwyol sylweddol ar eu deilliannau dysgu.

- Sut fydd eich plentyn yn teithio i'r ysgol, gan na fyddant o angenrheidrwydd yn gymwys i gael cymorth gyda chludiant, hyd yn oed os oeddent yn gymwys yn flaenorol? Dylai Rhieni/ Gofalwyr fod yn ymwybodol y darperir cludiant yn unol â pholisi cludiant yr awdurdod yr unig.

- Os ydych yn cyflwyno cais i symud mwy nag un plentyn, a fydd lle i bob un ohonynt yn yr un ysgol? Mewn rhai achosion, efallai y cewch gynnig ysgol wahanol ar gyfer pob plentyn, gan ddibynnu ar y lleoedd sydd ar gael.

- Pryd fydd eich plentyn yn gallu dechrau yn yr ysgol newydd? Cynghorir rhieni yn gadarn na ddylent dynnu eu plentyn o'r ysgol y mae ynddi hyd nes y gellir dod o hyd i le arall, addas, ar ei gyfer. Os na fydd y plentyn yn mynd i unrhyw ysgol yna cofnodir hyn fel absenoldeb anawdurdodedig a gallai gael ei adrodd i'r Swyddog Lles Addysg. Sylwer na fydd symud ysgol yn tarfu ar unrhyw gamau y mae'r Gwasanaeth Lles Addysg yn mynd ar eu trywydd yn barod.

Os ydych yn penderfynu mynd ymlaen â'ch cais, dylech lenwi'r Ffurflen Drosglwyddo a'i dychwelyd i'r Tîm Derbyniadau. Pan fydd rhieni yn cyflwyno cais am le mewn ysgol, mae'r Cod Derbyn i Ysgolion yn gofyn bod awdurdodau derbyn yn anelu at hysbysu'r rhieni ynghylch canlyniad y cais am le mewn ysgol o fewn 15 niwrnod ysgol neu 28 diwrnod calendr, pa un bynnag sydd gynharaf. Caiff ceisiadau eu prosesu yn unol â'r polisi derbyn hwn a rhoir blaenoriaeth i'r rhai sy'n chwilio am le yn ystod y tymor cyfredol. Pan wneir

cais beth amser cyn y dyddiad dechrau gofynnol, caiff y lle ei gadw ar agor gan y Cyngor am un tymor ysgol ar y mwyaf.

Cofiwch os gwelwch yn dda rhaid i'r awdurdod lleol gymeradwyo trosglwyddiadau.

Am wybodaeth a chyngor bydd angen i chi gysylltu â Kelly Tucker Ffôn:- 01495 766915, e-bost:-kelly.tucker@torfaen.gov.uk a fydd yn anfon ffurflen drosglwyddo a chanllawiau os yn briodol, y bydd angen ei dychwelyd i'r cyfeiriad ar y ffurflen.

Ar gyfer ceisiadau yn ystod y flwyddyn i ysgol wirfoddol a gynorthwyir (ffydd), gwnewch gais yn uniongyrchol i'r ysgol.

# RHESTRAU AROS

O ran trosglwyddiadau pontio statudol, bydd yr Awdurdod yn cadw rhestr aros ar gyfer y rownd dderbyniadau hyd nes 30 Medi yn yr un flwyddyn academaidd. Ar ôl y fath amser, bydd y rhestrau aros presennol yn cael eu clirio ac yn ffres Bydd angen ymgeisio. Gosodir enw plentyn ar y rhestr aros hyd yn oed os bydd rhieni yn dewis ysgol arall neu'n penderfynu defnyddio'u hawl i apelio.

Gallai safle plentyn ar y rhestr aros newid, gan y gallai ceisiadau ddod i law sydd â blaenoriaeth uwch dan y meini prawf derbyn. Os daw lle ar gael yn ystod y cyfnod hwn bydd y lle yn cael ei roi i blentyn ar y rhestr aros ar sail meini prawf yr Awdurdod ar gyfer achosion lle mae mwy o geisiadau na lleoedd, ac nid ar sail y dyddiad yr ychwanegwyd y cais at y rhestr.

Pan gaiff cais i drosglwyddo yn ystod y flwyddyn ei wrthod, bydd enw'r plentyn yn aros ar y rhestr aros ar gyfer y dewis ysgol hyd at ddiwedd y flwyddyn academaidd y caiff y cais ei wneud ynddi, pan ellir gwneud cais newydd. Os daw lle yn wag bryd hynny, caiff yr holl blant ar y rhestr aros eu hystyried gyda'i gilydd am y lle, a'u blaenoriaethu fel y nodir ym meini prawf gordanysgrifio'r Cyngor a gyhoeddwyd.

Yn benodol ar gyfer y broses derbyn i feithrin, cedwir rhestr aros ar gyfer y disgyblion hynny nad ydynt wedi gallu cael lle ym mis Medi. Pan ddyrennir lle mewn meithrin i'r plentyn, ni fydd yn gymwys i fod ar y rhestr aros (ac eithrio lleoliad codi'n 3 yn y feithrinfa honno), oni bai bod newid sylweddol wedi bod mewn amgylchiadau sy'n effeithio ar statws y cais, fel symud tŷ i dalgylch arall. Cyfrifoldeb yr ymgeisydd yw cysylltu â'r Tîm Derbyn i Ysgolion i gael eglurhad ynghylch unrhyw newid mewn amgylchiadau.

# Y TREFNIADAU AR GYFER CEISIADAU HWYR

Bydd unrhyw geisiadau sy'n dod i law ar ôl y dyddiad cau perthnasol (gweler yr amserlen) neu unrhyw geisiadau sy'n dal i fod yn anghyflawn ar y dyddiad cau, yn cael eu trafod o dan y trefniadau ymgeisio hwyr. Rhaid cyflwyno ceisiadau hwyr ar ffurflen gais bapur, oherwydd nid yw'n bosibl ymgeisio ar-lein ar ôl y dyddiad cau.

Os bydd yr Awdurdod Lleol yn derbyn newid i'r ysgol a ffefrir ar ôl y dyddiad cau a gyhoeddwyd, bydd y cais yn cael ei weld fel cais hwyr. Dylai unrhyw geisiadau neu ddewisiadau a dderbynnir ar ôl y dyddiad cau a gyhoeddwyd gael eu prosesu'n fisol ar ôl y dyddiad cynnig, lle bo'n bosibl.

Yna, caiff ceisiadau hwyr pellach eu coladu'n fisol ar sail y mis y cawsant eu derbyn. Dyrennir lleoedd yn unol â'r meini prawf a bydd rhieni'n cael gwybod beth yw canlyniad eu cais o fewn mis ar ôl derbyn y cais. Bydd y trefniadau ar gyfer ceisiadau hwyr yn parhau hyd nes wythnos olaf mis Awst. Ar gyfer ceisiadau i'r Meithrin, mae'r rhestr aros ar waith ar gyfer y flwyddyn academaidd gyfan. Ar ôl y dyddiad hwn, caiff unrhyw dderbyniadau statudol sy'n dod i law eu prosesu fel trosglwyddiad o fewn y flwyddyn ysgol.

Sylwer y gallai ceisiadau sy'n cael eu hystyried fel ceisiadau hwyr gynyddu'r posibilrwydd o beidio â chael lle yn yr ysgol(ion) a ffefrir. Y rheswm dros hyn yw fod pob cais a gyflwynir gyda'r dystiolaeth angenrheidiol cyn y dyddiad cau yn cael blaenoriaeth dros y rheiny sydd wedi dod i law ar ôl y dyddiad cau.

Ni all y Cyngor dderbyn cyfrifoldeb dros unrhyw gais neu dystiolaeth na chafodd ei gyflwyno'n gywir trwy'r system ar-lein, neu sy'n mynd ar goll yn y post. Argymhellir bod unrhyw un sy'n anfon cais trwy'r post yn defnyddio gwasanaeth lle mae'n rhaid i'r sawl sy'n derbyn y post lofnodi.

# PLANT PERSONÉL LLUOEDD ARFOG Y DU A GWEISION ERAILL Y GORON (GAN GYNNWYS DIPLOMYDDION).

Mae teuluoedd personél Lluoedd Arfog y DU a Gweision eraill y Goron yn gorfod symud yn aml o fewn y DY ac o dramor, a hynny'n aml ar fyr rybudd.

O ganlyniad, i bersonél lluoedd arfog y DU a Gweision eraill y Goron bydd y Cyngor o'r farn fod y meini prawf preswylio wedi'u bodloni (ac yn rhoi blaenoriaeth yn y dalgylch) os bydd unrhyw un o'r canlynol yn dod gyda'r cais, hyd yn oed os nad yw'r teulu'n byw yn Nhorfaen ar y dyddiad perthnasol.

- Llythyr swyddogol gan y Weinyddiaeth Amddiffyn neu'r Swyddfa Dramor a Chymanwlad
- Dyddiad preswylio pendant
- Cadarnhad o'r cyfeiriad newydd.

Mae Torfaen yn gweithio gydag SSCE Cymru a'n Swyddog Cyswllt Ysgolion Rhanbarthol ar gyfer Plant y Lluoedd Arfog i sicrhau ein bod yn dilyn Cyfamod y Lluoedd Arfog gan weithio gyda'n gilydd i ddarparu cefnogaeth i blant y Lluoedd Arfog sy'n mynychu ysgolion yn Nhorfaen.

# DYLETSWYDD I DDERBYN PLENTYN Â CHYNLLUN DATBLYGU UNIGOL I YSGOL A GYNHELIR

Ar gyfer disgyblion ag anghenion dysgu ychwanegol, mae derbyn i ysgol yn cael ei ddylanwadu gan ddewis rhieni mewn modd sy'n gyffredinol debyg iawn i ddisgyblion eraill. Fodd bynnag, gall anghenion penodol y plentyn ac addasrwydd ysgol ddylanwadu ar y penderfyniad terfynol ar leoliad. Mae'r broses leoli yn cael ei llywodraethu gan weithdrefnau a nodir yn Neddf ADY a Thribiwnlys Addysgol (Cymru) 2018 a Cod ADY, a all roi blaenoriaeth arbennig ar gyfer derbyn i ysgol benodol neu a all hefyd fod yn rheswm dros wrthod dewis rhiant.

Mae darpariaeth ddysgu ychwanegol (DDdY) plentyn yn cael ei rheoli drwy Gynllun Datblygu Unigol (CDU), a gynhelir naill ai gan yr ysgol neu'r awdurdod lleol (ALI). Gall CDUau a gynhelir gan ALI enwi ysgol at ddibenion sicrhau derbyn lle (gellir dod o hyd i hyn yn adran 2D.1) ac mewn achosion o'r fath, rhaid i'r plentyn gael ei dderbyn i'r ysgol a enwir. Ni all CDUau a gynhelir gan ysgolion enwi ysgol yn ffurfiol.

Mae'r ddyletswydd hon yn berthnasol waeth beth fo'r cyfyngiad ar faint dosbarthiadau babanod a hyd yn oed petai derbyn y plentyn yn golygu bod yr ysgol yn derbyn mwy na'i nifer derbyn. Mae'r ddyletswydd i dderbyn yn berthnasol ar bob adeg, gan gynnwys adegau pan fo'r ysgol yn cael ei henwi mewn cynllun y tu allan i'r rownd dderbyniadau arferol.

Cyn defnyddio'i bŵer, rhaid i'r Awdurdod Lleol ymgynghori â'r ysgol. Ni fydd yr Awdurdod Lleol yn defnyddio'r pŵer hwn onid yw'r canlynol yn wir:

(a) mae'r Awdurdod Lleol yn fodlon fod angen darparu'r Ddarpariaeth Ddysgu Ychwanegol a nodir yn ei Gynllun Datblygu Unigol, yn yr ysgol a enwir, er budd plentyn, ac

(b) mae'n briodol i'r plentyn gael addysg neu hyfforddiant yn yr ysgol.

Yn unol â hyn, lle enwir ysgol yn yr isadran hon, dylai'r Awdurdod Lleol nodi oddi tano pam y mae'n fodlon fod angen darparu'r Ddarpariaeth Ddysgu Ychwanegol a nodir yn ei Gynllun Datblygu Unigol, yn yr ysgol a enwir, er budd y plentyn a pham y mae'n briodol i'r plentyn gael addysg neu hyfforddiant yno.

Ceir rhagor o fanylion y dyletswyddau a'r pwerau i enwi ysgol at ddiben sicrhau y derbynnir plentyn, yn y Cod ADY.

O 1 Medi 2021, mae'r canlynol hefyd yn ddisgyblion a eithrir:

- plant a dderbyniwyd i'r ysgol y tu allan i'r rownd dderbyniadau arferol am fod eu cynllun datblygu unigol yn enwi'r ysgol at ddiben sicrhau bod y plentyn yn cael ei dderbyn.
- plant ag ADY a addysgir fel arfer mewn uned arbennig mewn ysgol brif ffrwd, ond sy'n cael rhan o'u gwersi mewn dosbarth nad yw'n ddosbarth arbennig.

# PLANT SY'N CAEL EU CARTREFU TRWY ASIANTAETHAU TRAIS DOMESTIG

Caiff ceisiadau gan blant sydd mewn cartref dros dro dan warchodaeth asiantaethau trais domestig cymeradwy eu prosesu fel blaenoriaeth, os oes llythyr swyddogol gan yr asiantaeth berthnasol yn dod gyda'r ffurflen gais.

# PLANT SIPSIWN A THEITHWYR

Mae'r Cyngor wedi'i rwymo'n statudol i sicrhau bod pob plentyn o oed ysgol gorfodol yn cael addysg sy'n addas ar gyfer eu hoed, eu gallu ac unrhyw anghenion addysgol arbennig. Mae'r Cyngor hefyd yn hyrwyddo safonau uchel wrth ddarparu addysg ac ar gyfer llesiant plant. Mae'r rhwymedigaethau hyn yn berthnasol i bob plentyn, waeth a ydynt yn byw'n barhaol yn yr ardal ai peidio.

Mae Gwasanaeth Addysg Sipsiwn, Roma a Theithwyr Torfaen yn wasanaeth allgymorth sy'n darparu cefnogaeth ychwanegol yn seiliedig ar dasgau ac wedi ei leoli mewn ysgolion i ddisgyblion o'r gymuned Sipsiwn, Roma a Theithwyr. Mae'r tîm yn gweithio ar sail allgymorth i gefnogi disgyblion ar sail angen yn unol ag ymateb graddedig a matrics cefnogaeth ADY Torfaen. Bydd angen cefnogaeth allgymorth ar nifer o bobl ifanc Sipsiwn, Roma a Theithwyr ar adegau allweddol yn eu haddysg. Mae darpariaeth allgymorth yn hanfodol i adeiladu perthnasau ar sail ymddiriedaeth gyda'r gymuned Sipsiwn, Roma a Theithwyr gan gyfeirio a chydweithio gyda gwasanaethau a darparwyr eraill i sicrhau fod dysgwyr yn cael eu cynnwys yn llawn yn eu hysgolion.

# SYMUDIADAU WEDI'U RHEOLI

Mae'r polisi hwn yn cyflwyno'r trefniadau ar gyfer ysgolion Torfaen a dylid ei ddarllen a'i roi ar waith ar y cyd â chylchlythyr Llywodraeth Cymru, 'Defnydd Effeithiol o Symudiadau Wedi'u Rheoli – Cychwyn Newydd i Blant a Phobl Ifanc yn yr Ysgol'.

Mae symudiad wedi'i reoli yn golygu bod plentyn yn symud o un ysgol i ysgol arall mewn ffordd sydd wedi ei chynllunio'n ofalus ac sy'n dderbyniol i bawb, gan gynnwys y disgybl.

Mae symudiadau wedi'u rheoli yn offeryn pwysig i roi cyfle i ddisgyblion i gael dechrau newydd mewn ysgol newydd. Maent hefyd yn gallu lleihau'r angen am waharddiadau parhaol a lleihau'r canlyniadau negyddol sy'n gysylltiedig â nhw.

Rhaid bod budd gorau'r plentyn wrth graidd unrhyw symudiad wedi'i reoli, yn unol â Chonfensiwn y Cenhedloedd Unedig ar Hawliau'r Plentyn a'r saith nod craidd yn nogfen Llywodraeth Cymru 'Plant a Phobl Ifanc: Gweithredu'r Hawliau'.

Cyfeiria Cylchlythyr Cynulliad Cenedlaethol Cymru 47/2006 – Cynnwys a Chynorthwyo Disgyblion, at y defnydd o symudiadau wedi'u rheoli fel un o'r strategaethau ymyrryd cynnar y gellid eu hystyried er mwyn helpu disgyblion i reoli eu hymddygiad a'u presenoldeb yn yr ysgol.

## Pwy fyddai'n elwa ar Symudiad Wedi'i Reoli?

Gellir cynnig symudiad wedi'i reoli i'r disgyblion canlynol:

- Disgyblion y credir yn ddidwyll y byddai dechrau newydd o fudd iddynt. Mae'n hanfodol sefydlu'r rhesymau craidd dros y problemau a brofir a/neu'r ymddygiadau a welir gan y disgybl, cyn ystyried symudiad wedi'i reoli.
- Disgyblion y mae eu hamser yn yr ysgol gyfredol yn cael effaith negyddol ar eu llesiant emosiynol.
- Fel mecanwaith cymorth i ddysgwyr ag anawsterau emosiynol ac ymddygiadol cyn cyrraedd pwynt argyfwng. Bydd dysgwyr wedi derbyn amrywiaeth o strategaethau cefnogol yn eu hysgol gyda llwyddiant cyfyngedig, fodd bynnag, mae ysgol brif ffrwd yn parhau i fod yn briodol i ddiwallu eu hanghenion ac mae cyfarfod Cynllun Cymorth Bugeiliol (CCB) wedi dod i'r casgliad mai dechrau o'r newydd mewn ysgol newydd fyddai'r strategaeth ymyrraeth fwyaf cadarnhaol i gynnal y dysgwr mewn addysg prif ffrwd.
- Un digwyddiad, a hwnnw'n ddifrifol, a allai arwain at waharddiad parhaol lle na nodwyd anawsterau ymddygiadol, emosiynol a chymdeithasol eraill.

# PROTOCOL DYSGWYR ANODD EU LLEOLI

Mae cyfleoedd addysgol rhai disgyblion yn y fantol am eu bod yn cael eu gweld fel disgyblion anodd eu lleoli ac mae yna oedi cyn iddynt gael eu derbyn i'r ysgol, mae eu lleoliad yn chwalu yn fuan wedi eu derbyn, neu maent yn methu â chael lle mewn ysgol. Dylid dod o hyd i le addas mewn ysgol yn fuan ac a dylai'r disgybl fod ar y gofrestr o fewn 20 diwrnod. Mae'n bwysig hefyd na ddylid gofyn i unrhyw ysgol gymryd nifer ormodol neu afresymol o ddisgyblion o'r fath a bod gwasanaethau cymorth yn eu lle o amgylch derbyniad mynediad teg newydd er mwyn sicrhau bod y lleoliad yn llwyddiannus.

Mae ar bob awdurdod sy'n derbyn i ysgolion ddyletswydd i gydymffurfio â'r Codau Derbyn perthnasol cyfredol. Mae'n ddyletswydd ar yr ALI i sicrhau bod digon o leoedd yn yr ardal ac mae ganddo gyfrifoldeb tuag at ddisgyblion ac ysgolion i sicrhau bod y lleoliad yn cael y siawns orau o lwyddo.

# RHAI O'R RHESYMAU DROS WRTHOD DERBYN PLENTYN

Er bod gan rieni'r hawl i fynegi eu dymuniad i'w plentyn gael ei dderbyn i unrhyw ysgol, mae yna resymau pam y gallem orfod gwrthod gwireddu'r dymuniad hwnnw

- Y fenter maint dosbarthiadau babanod sydd wedi ymrwymo i sicrhau nad yw dosbarthiadau yn fwy na 30 o ddisgyblion. Mae'r terfyn statudol ar faint dosbarthiadau, sef 30, yn berthnasol i'r Dosbarth Derbyn, Blwyddyn 1 a Blwyddyn 2
- Cyfyngiadau ffisegol adeiladau'r ysgol a'r safle, a allai olygu bod llai na 30 o ddisgyblion ymhob dosbarth
- Unrhyw ffactorau eraill a allai gyfaddawdu ar y gallu i ddarparu addysg effeithlon a/neu ddefnyddio adnoddau'n effeithlon.

- Gall yr Awdurdod Lleol (yn cynnwys Corff Llywodraethu ysgol wirfoddol a gynorthwyir) wrthod cydymffurfio â dewis y rhieni am gyfnod o ddwy flynedd yn dilyn ail waharddiad neu waharddiad dilynol. Yn y fath amgylchiadau, ni all rhiant apelio yn erbyn penderfyniad yr Awdurdod Lleol.

## Eithriadau i faint dosbarthiadau

Mae rheoliadau Llywodraeth Cymru yn gofyn i Gynghorau gyfyngu ar faint dosbarthiadau er mwyn sicrhau nad oes mwy na 30 disgybl yn y dosbarth. Er nad es deddfwriaeth sy'n cyfyngu dosbarthiadau Cyfnod Allweddol 2 i 30 neu lai, dyma'r targed i Lywodraeth Cymru o ran maint dosbarthiadau. Fodd bynnag, mae yna eithriadau i'r rheoliadau hyn (y cyfeirir atynt fel "disgyblion a eithrir") a allai olygu bod modd derbyn mwy na'r terfyn o 30 disgybl i bob dosbarth. Dyma'r disgyblion hynny:

- Plant y nodir yn eu Cynllun Datblygiad Addysgol (CDA) y dylid eu haddysgu yn yr ysgol briodol, a dderbyniwyd i'r ysgol y tu allan i'r rownd dderbyn arferol.

- Plant sy'n derbyn gofal gan awdurdodau lleol (plant sy'n derbyn gofal), neu nad ydynt yn cael gofal mwyach (plant a oedd yn derbyn gofal) am iddynt gael eu mabwysiadu neu leoli gyda theulu neu gael gwarcheidwad arbennig, ac sy'n cael eu derbyn i'r ysgol y tu allan i'r rownd dderbyniadau arferol.

- Plant y gwrthodwyd lle iddynt mewn ysgol i gychwyn, ond y cynigiwyd lle iddynt y tu allan i'r rownd dderbyniadau arferol dan gyfarwyddyd panel apêl derbyniadau, neu am fod y sawl a oedd yn gyfrifol am y penderfyniad gwreiddiol yn cydnabod y gwnaed camgymeriad wrth weithredu'r trefniadau derbyn i ysgolion.

- Plant a dderbyniwyd y tu allan i'r rownd dderbyniadau arferol lle:

  (a) mae'r Awdurdod Lleol sy'n cynnal ysgolion wedi cadarnhau na all gael lle mewn unrhyw ysgol addas arall o fewn pellter rhesymol i'w gartref am ei fod wedi symud i'r ardal y tu allan i'r rownd dderbyniadau arferol, neu.

  (b) mae'n dymuno cael addysg grefyddol, neu addysg trwy gyfrwng y Gymraeg a'r ysgol dan sylw yw'r unig ysgol addas o fewn pellter rhesymol.

- Plant a dderbyniwyd i'r ysgol y tu allan i'r rownd dderbyniadau arferol ac ar ôl diwrnod cyntaf y flwyddyn ysgol, ac ar ôl hynny mae'r ysgol wedi trefnu ei dosbarthiadau, a byddai'r ysgol yn gorfod cymryd camau penodol pe na bai'r plentyn dan sylw yn ddisgybl a eithrir.

- Plant y mae eu hefell neu frawd/chwaer arall o enedigaeth niferus yn cael eu derbyn fel disgyblion heb eu heithrio, fel y disgybl(ion) olaf i'w derbyn cyn cyrraedd y nifer derbyn.

- Plant sydd wedi'u cofrestru fel disgyblion mewn ysgolion arbennig, ond sy'n cael rhan o'u haddysg mewn ysgol brif ffrwd.

- Plant ag ADY sy'n cael eu haddysg fel arfer mewn uned arbennig mewn ysgol brif ffrwd ac sy'n cael rhan o'u gwersi mewn dosbarth nad yw'n ddosbarth arbenigol.

# DERBYN I YSGOLION ALL CYFAGOS

Pan fo rhieni'n dymuno ymgeisio i'w plentyn fynychu ysgol mewn awdurdod derbyn arall (h.y. Casnewydd, Sir Fynwy, Blaenau Gwent neu Gaerffili), gofynnir i chi ymgeisio trwy'r awdurdod derbyn perthnasol yn unol â'u trefniadau derbyn nhw.

Dylai unrhyw ymgeiswyr sy'n byw yn ardaloedd awdurdodau (cynghorau) eraill, ac sy'n dymuno i'w plentyn fynd i ysgol yn Nhorfaen, ymgeisio trwy Gyngor Bwrdeistref Sirol Torfaen yn unol â'r amserlenni a osodwyd.

# NIFEROEDD DERBYN ARFAETHEDIG/CAPASITI YSGOLION AR GYFER Y FLWYDDYN ACADEMAIDD 2027/28

Capasiti a gyfrifwyd yn ystod Tymor yr Hydref/ gwanwyn 2025/26

## Ysgolion Cynradd

| Ysgol | Capasiti Ar Hyn o Bryd | Nifer Derbyn |
|---|---|---|
| Ysgol Gynradd Wirfoddol a Reolir Treftadaeth Blaenafon | 448 | 64 |
| Ysgol Gynradd Gymunedol Ffordd Blenheim | 315 | 45 |
| Ysgol Gynradd Coed Eva | 420 | 60 |
| Ysgol Gynradd Croesyceiliog | 420 | 60 |
| Ysgol Gynradd Cwmffrwdoer | 315 | 45 |
| Ysgol Gynradd Garnteg | 420 | 60 |
| Ysgol Gynradd George Street | 420 | 60 |
| Ysgol Gynradd Greenmeadow | 252 | 36 |
| Ysgol Gynradd Griffithstown | 420 | 60 |
| Ysgol Gynradd yr Eglwys yng Nghymru Henllys | 210 | 30 |
| Ysgol Gynradd Gymunedol Llantarnam | 315 | 45 |
| Ysgol Gynradd Llanyrafon | 406 | 58 |
| Ysgol Gynradd Maendy | 390 | 55 |
| Ysgol Gynradd Nant Celyn | 420 | 60 |
| Ysgol Gynradd New Inn | 541 | 75 |
| Ysgol Gynradd Gatholig Mair a'r Angylion | 210 | 30 |
| Ysgol Gynradd Gatholig Padre Pio | 210 | 30 |
| Ysgol Gynradd Gymunedol Penygarn | 420 | 60 |
| Ysgol Gynradd yr Eglwys yng Nghymru Ponthir | 118 | 16 |
| Ysgol Gynradd Pontnewydd | 420 | 60 |
| Ysgol Gynradd Gatholig Dewi Sant | 210 | 30 |
| Ysgol Gynradd Gymunedol Woodlands | 315 | 45 |
| Ysgol Bryn Onnen | 210 | 30 |
| Ysgol Gymraeg Cwmbrân | 360 | 47 |
| Ysgol Gymraeg Gwynllyw (Cynradd) | 210 | 30 |
| Ysgol Panteg | 420 | 60 |

## Ysgolion Uwchradd

| Ysgol | Capasiti | Nifer Derbyn | |
|---|---|---|---|
| | | B7 – 11 | B12 |
| Abersychan | 950 | 190 | Amh |
| Croesyceiliog | 1200 | 240 | Amh |
| Ysgol Uwchradd Cwmbrân | 1250 | 250 | Amh |
| Ysgol Gatholig Sant Alban | 932 | 170 | Amh |
| Ysgol Gorllewin Mynwy | 1250 | 250 | Amh |
| Ysgol Gymraeg Gwynllyw (Uwchradd) | 985 | 197 | 72 |

# DEDDFWRIAETH

Mae'r polisi hwn yn cydymffurfio â'r ddeddfwriaeth a'r codau statudol a ganlyn: Deddf Safonau a Fframwaith Ysgolion 1998, Y Cod Derbyn i Ysgolion a'r Cod Apeliadau Derbyn i Ysgolion 2013.
Mae'n bwysig nodi bod Paragraff 3.45 Cod Derbyn i ysgolion 2013 yn datgan:


"Mae cyfyngiadau statudol ar faint dosbarthiadau yn golygu pan fydd athro ysgol unigol yn bresennol, ac yn amodol ar rhai disgwyliadau cyfyngedig, ni chaniateir i ddosbarthiadau babanod (Derbyn. Blwyddyn 1 a Blwyddyn 2) gynnwys mwy na 30 o ddisgyblion."

## Nifer Derbyn

"Y nifer derbyn yw nifer y disgyblion y dylid eu derbyn i grŵp oed perthnasol os derbynnir digon o geisiadau am leoedd. Ni ellir gwrthod lle i ddisgyblion hyd nes cyrhaeddir y nifer derbyn. Caiff ei gyfrifo drwy rannu'r capasiti â nifer y grwpiau blwyddyn a fydd yn cael eu haddysgu yn yr ysgol. Gan fod y nifer derbyn yn adlewyrchu gallu'r ysgol i dderbyn disgyblion, dim ond o dan amgylchiadau eithriadol y dylid rhagori ar y nifer hwn." (Cylchlythyr Llywodraeth Cymru Rhif: 021/2011 "Mesur Capasiti Ysgolion yng Nghymru", a gyhoeddwyd fis Hydref 2011).

## Prosbectws Ysgolion

Mae'n ofynnol i gyrff llywodraethu ysgolion a gynhelir, gyhoeddi prosbectws ysgol ar gyfer rhieni a darpar rieni. Mae copïau o brosbectws ysgol ar gael o'r ysgolion a restrir yng Nghyfeirlyfr yr Ysgolion.



# CYNGOR BWRDEISTREF SIROL TORFAEN CYDLYNU TREFNIADAU DERBYN AR GYFER YSGOLION CYNRADD



Ionawr 2025

TORFAEN COUNTY BOROUGH
BWRDEISTREF SIROL TORFAEN

Mae cydlynu trefniadau derbyn yn caniatáu i rieni lenwi un ffurflen gais wrth wneud cais am le mewn ysgolion cynradd Gwirfoddol a Gynorthwyir (ysgolion ffydd), ysgolion sefydledig ac ysgolion cynradd cymunedol. Mae'n ffordd o symleiddio'r broses i rieni sy'n ymgeisio am le.

Mae cynllun cydlynu trefniadau derbyn yn ceisio sicrhau bod pob plentyn sy'n byw mewn ardal awdurdod lleol, ac wedi gwneud cais yn y 'rownd dderbyn arferol', yn derbyn un cynnig o le yn unig mewn ysgol, cyn belled ag y bo'n rhesymol ymarferol, ar y diwrnod cynnig cenedlaethol.

Mae'r cynllun yn berthnasol i'r rownd derbyn arferol yn unig (h.y., mynediad blynyddol i Ddosbarth Derbyn (ysgol gynradd) ym mhob ysgol cyfrwng Saesneg, cyfrwng Cymraeg ac ysgolion ffydd. Nid yw'r cynllun yn cynnwys derbyn i ysgolion annibynnol, ysgolion arbennig, ysgolion a dosbarthiadau meithrin, ac nid yw'n cynnwys derbyn yn ystod y flwyddyn academaidd (yn ystod y flwyddyn). Bydd angen i ymgeiswyr wneud cais yn uniongyrchol i'r ysgol o'u dewis os ydynt am drosglwyddo yn ystod y flwyddyn.

## Defnyddio'r ffurflen gais gyffredin i wneud cais am le mewn ysgol.

Bydd pob rhiant yn cael ei wahodd i fynegi ei ddewis wrth wneud cais am le mewn ysgol, a hynny ar ffurflen gais gyffredin sydd ar gael gan y Cyngor. Gwneir hyn naill ai drwy'r porth derbyn ar-lein neu ar gopi papur. Gall ymgeiswyr fynegi hyd at 5 dewis ar gyfer unrhyw ysgol yn Nhorfaen.

Efallai y bydd gofyn hefyd i rieni sy'n gwneud cais am ysgol Wirfoddol a Gynorthwyir, lenwi ffurflen wybodaeth atodol ar gyfer yr ysgol unigol. Bydd copïau o ffurflenni gwybodaeth atodol ar gael ar wefan pob ysgol unigol. Byddai angen dychwelyd y ffurflen hon (a bod angen) yn uniongyrchol i'r ysgol, ynghyd ag unrhyw dystiolaeth ddogfennol, fel tystysgrif bedydd/cadarnhau'r ffydd yr ydych yn perthyn iddi. Mi fydd ffurflen atodol a gyflwynir heb ffurflen gais yn cael ei hystyried yn annilys.

Bydd angen i rieni sy'n dymuno gwneud cais am ysgol y tu allan i Dorfaen, wneud cais yn uniongyrchol i awdurdod lleol yr ysgol dan sylw. Bydd yr Awdurdod y gwnaed y cais iddo, yn hysbysu'r rhiant a Thorfaen ynghylch y penderfyniad i gynnig neu wrthod lle. Os bydd awdurdod arall yn cynnig lle mewn ysgol sy'n cael ei ffafrio'n uwch nag ysgol yn Nhorfaen, ni fydd cyngor Torfaen yn cynnig lle. Os na ellir bodloni unrhyw un o'r dewisiadau, bydd yr Awdurdod Lleol yn sicrhau cyn belled ag y bo'n rhesymol ymarferol, bod cynnig yn cael ei wneud.

Os yw dewis a ffefrir yn cael ei wrthod, cynigir yr hawl i'r ymgeisydd apelio. Bydd y ffordd y bydd yr apêl yn cael ei phrosesu yn dibynnu ar y math o ysgol a gafodd ei gwrthod. Bydd manylion llawn y camau i'w dilyn i gyflwyno apêl yn cael eu cynnwys yn y llythyr penderfyniad i'r ymgeisydd.

## Ceisiadau hwyr

Bydd unrhyw geisiadau a dderbynnir ar ôl y dyddiad cau (gweler yr amserlen) neu geisiadau sy'n parhau i fod yn anghyflawn ar y dyddiad cau, yn cael eu trin fel ceisiadau hwyr. Rhaid defnyddio copi papur o'r ffurflen gais i gyflwyno ceisiadau hwyr. Nid yw'n bosibl gwneud cais ar-lein ar ôl y dyddiad cau. Os bydd yr Awdurdod yn derbyn cais i newid dewis ar ôl y dyddiad cau a gyhoeddwyd, bydd y cais yn cael ei ystyried yn gais hwyr.

Bydd unrhyw geisiadau neu geisiadau i newid dewis a dderbynnir ar ôl y dyddiad cau a gyhoeddwyd, yn cael eu prosesu yn fisol ar ôl dyddiad y cynnig, lle bo hynny'n bosibl. Dyrennir lleoedd yn unol â meini prawf, a bydd rhieni'n cael gwybod canlyniad eu cais o fewn y mis ar ôl ei dderbyn.

Bydd ceisiadau hwyr yn cael eu prosesu gan yr ALI hyd at ddiwedd mis Awst. Ar ôl hynny byddant yn cael eu hystyried yn drosglwyddiadau yn ystod y flwyddyn, a bydd angen i'r ymgeisydd wneud cais yn uniongyrchol i'r ysgol o'u dewis (ysgolion Gwirfoddol a Gynorthwyir yn unig).

## Rhestrau aros

Mewn perthynas â'r rownd derbyn i Ddosbarth Derbyn, bydd enw plentyn yn aros ar restr aros unrhyw ysgol o ddewis a wrthodwyd, tan y 30ain o Fedi yn y flwyddyn y gwneir y cais. Yn dilyn hyn, bydd enw pob ymgeisydd ar restr aros ysgol Wirfoddol a Gynorthwyir yn cael ei anfon ymlaen, i'w rheoli gan yr ysgol berthnasol. Bydd enw plentyn yn cael ei roi ar y rhestr aros hyd yn oed os bydd rhieni'n dewis ysgol arall neu'n penderfynu manteisio ar eu hawl i apelio.

Bydd safle plentyn ar y rhestr aros yn newid os derbynnir ceisiadau dilynol sydd â mwy o flaenoriaeth o dan y meini prawf derbyn. Os daw lle ar gael yn ystod y cyfnod hwnnw, bydd lleoedd yn cael eu neilltuo i blant ar y rhestr aros yn seiliedig ar feini prawf gordanysgrifio'r Awdurdod derbyn ac nid yn seiliedig ar y dyddiad y cafodd y cais ei ychwanegu at y rhestr.

| Amserlen ar gyfer cydlynu trefniadau derbyn ar gyfer ysgolion cynradd | Dyddiadau |
|---|---|
| **Rownd Derbyn yn agor**<br>(Ffurflen gais gyffredin/porth ar-lein yn fyw) | Tachwedd (gweler yr amserlen) |
| **Rownd Derbyn yn cau** (cyflwyno pob cais i'r ALI) | Y dyddiad cau cenedlaethol ar gyfer ceisiadau Dosbarth Derbyn (cynradd) yw 15 Ionawr, bob blwyddyn. |
| **Ceisiadau'n cael eu hanfon ymlaen at ysgolion Gwirfoddol a Gynorthwyir;**<br>Ar ôl y dyddiad cau, bydd Cyngor Bwrdeistref Sirol Torfaen yn rhoi manylion yr holl geisiadau i bob Corff Llywodraethu os yw eu hysgol wedi'i rhestru fel ysgol o ddewis. | O fewn 3 wythnos i'r dyddiad cau. |
| **Cyfnod prosesu**<br>Trwy gyfeirio at ei feini prawf, bydd y Corff Llywodraethu yn pennu trefn blaenoriaeth pob cais am le yn ei ysgol Wirfoddol a Gynorthwyir,. Mi fydd yn rhoi rhestr o'r holl ymgeiswyr i'r Cyngor, a hynny yn ôl trefn blaenoriaeth, gan ddangos pa feini prawf sy'n berthnasol i'r plentyn. Trwy gyfeirio at ei feini prawf derbyn, bydd y Cyngor yn pennu trefn blaenoriaeth pob cais am le mewn ysgol gymunedol neu ysgol wirfoddol a reolir. Yna bydd y Cyngor yn ystyried dewis pob rhieni yn gyfartal ac os oes modd bodloni un neu fwy o ddewisiadau a | Erbyn 1 Mawrth (o'r flwyddyn academaidd berthnasol) |

| | |
|---|---|
| ffefrir, bydd y dewis uchaf, fel y nodir ar y ffurflen gais gyffredin, yn cael ei neilltuo. Os na ellir bodloni unrhyw un o'r dewisiadau, bydd yr Awdurdod Lleol cyn belled ag y bo'n rhesymol ymarferol, yn cynnig lle naill ai mewn ysgol ffydd arall (os dyna yw eu dewis) neu eu hysgol dalgylch, yn unol â Pholisi Derbyn yr Ysgol. | |
| **Gwybodaeth i ysgolion**<br>Bydd yr Awdurdod Lleol yn anfon rhestr o enwau'r holl ddisgyblion y cynigir lleoedd iddynt, i Gorff Llywodraethu'r Ysgol Wirfoddol a Reolir/yr ysgol yn Nhorfaen. | 5 diwrnod ysgol cyn dyddiad y penderfyniad. |
| **Dyddiad y penderfyniad**<br>Anfonir penderfyniadau mewn e-bost a gellir hefyd eu gweld ar-lein (neu lythyr os yw rhiant wedi gofyn am y penderfyniad drwy'r post). Bydd ymgeiswyr yn cael gwybod am eu hawl i apelio a bydd yn cynnwys manylion llawn y broses, os bydd unrhyw un o'u ceisiadau ysgol yn aflwyddiannus. | Y dyddiad cynnig cenedlaethol ar gyfer ceisiadau Dosbarth Derbyn (cynradd) yw 16 Ebrill (neu'r diwrnod gwaith nesaf), bob blwyddyn. |
| **Ymateb i'r cynnig**<br>Pan gynigir lle mewn ysgol, rhaid i ymgeiswyr ymateb i'r cynnig yn uniongyrchol i'r Cyngor o fewn 14 diwrnod o ddyddiad y cynnig. Os nad yw ymgeisydd yn ymateb i'r cynnig o fewn y terfyn amser hwn, bydd y Cyngor yn atgoffa'r ymgeisydd am yr angen i ymateb o fewn 7 diwrnod arall. Gall methu ag ymateb erbyn y dyddiad cau terfynol o 21 diwrnod, arwain at dynnu'r cynnig yn ôl a chynnig y lle i blentyn arall. Bydd y Cyngor yn rhoi manylion yr holl ymatebion i'r Corff Llywodraethu, ynglŷn â'r lleoedd a neilltuwyd yn yr ysgol. | O fewn 14/21 diwrnod i ddyddiad y cynnig. |
| **Clywed Apeliadau** | Dechrau ym mis Mai (yn y flwyddyn academaidd berthnasol) |

Dylid gwneud ceisiadau i Ysgol Uwchradd Gatholig Sant Alban, ysgol ffydd yng Nghyngor Bwrdeistref Sirol Torfaen, yn uniongyrchol trwy eu gwefan https://www.stalbans-pontypool.org.uk/about-us/admissions/

I'w ddarllen ar y cyd â'r Polisi Derbyn i Ysgolion.